



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

# Gwasanaethau gofal a chymhorth i bobl yng Ngogledd Cymru

## Am y fideo yma

Mae'r fideo yma am y gwasanaethau gofal a chymorth sydd angen ar bobl yng Ngogledd Cymru.

Mae'n dod o adroddiad ysgrifenedig gan y 6 **cyngor** yng Ngogledd Cymru a **Bwrdd Iechyd** Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Buom yn edrych ar:

Plant a phobl ifanc

Pobl hŷn

Iechyd ac anabledd corfforol

Anabledd dysgu

Iechyd meddwl

Gofalwyr

Trais yn erbyn menywod, cham-drin domestig a cham-drin rhywiol

Pobl yn y carchar

Pobl sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd

Pobl ddigartref

Pobl awtistig

Megis dechrau yw'r gwaith yma, ond rydym wedi dysgu llawer yn barod.

Bydd yn ein helpu i ysgrifennu cynllun ar gyfer gwasanaethau yng Ngogledd Cymru ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn gwybod y bydd gennym lai o arian ac yn awyddus i wneud mwy.

Mae'r adroddiad yma yn help i ni ddeall pa wasanaethau rydym angen cynllunio a phrynu.

Mae hefyd yn dangos ein bod angen darganfod mwy am rhai grwpiau, er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gwasanaethau maen nhw angen.

Fedrwch weld yr adroddiad cyfan ar wefannau bob cyngor a'r bwrdd iechyd. Am fwy o wybodaeth, gwelwch sut i gysylltu gyda ni ar ddiwedd y fideo yma.

Dyma beth rydym yn meddwl dylai ddigwydd ar gyfer pob un o'r grwpiau hyn.

## **Plant a phobl ifanc**

### **Beth rydym wedi darganfod**

Mae tua 124,000 o blant a phobl ifanc yng Ngogledd Cymru ac rydym yn disgwyl i'r rhif aros tua'r un fath.

Mae yna fwy o blant gyda anableddau na 5 mlynedd yn ôl.

Rydym angen cefnogi teuluoedd er mwyn i bob plentyn gael y cyfleoedd gora mewn bywyd.

### **Mae hyn yn cynnwys meddwl am:**

- cefnogi teuluoedd i helpu eu babanod i wneud yn dda
- plant sydd dros bwysau, yn ysmegu neu yn yfed alcohol
- plant sydd yn cael gofal gan y gwasanaethau
- plant a phobl ifanc sydd yn torri'r gyfraith

- plant a phobl ifanc sydd yn dioddef **trosedd**, gan gynnwys **troseddau ar-lein**
- gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc
- cymorth i ofalwyr ifanc
- sut mae gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac eraill yn medru gweithio gyda'i gilydd er mwyn rhoi cymorth i blant a'i theuluoedd
- sut i roi gwybodaeth i bobl cyn i bethau fynd yn o'i le.

## Pobl Hŷn

### Beth rydym wedi darganfod

Mae dros 150,000 o bobl yng Ngogledd Cymru dros 65 mlwydd oed.

Ac mae'r rhif yma yn cynyddu o hyd.

### Rydym angen edrych ar ffyrdd i:

- atal pobl hŷn rhag bod yn unig ac ar ben ei hunain
- cefnogi pobl i fyw yn eu cartref cyn bellad ag y bo modd
- cael cymorth gwell i bobl efo **dementia**
- cael digon o gartrefi gofal da a diogel ym mhob ardal, yn cynnwys llefydd i bobl gael ysbaid.
- gweithio allan sut i dalu am hyn i gyd.

## Iechyd ac anabledd corfforol

### Beth rydym wedi darganfod

Mae mwy o bobl yn byw yn hirach gyda problem iechyd neu anabledd.

Mae hyn yn cynnwys bod yn ddall neu fyddar.

## Rydym angen:

- cynllunio gwasanaethau i helpu bobl aros yn iach
- cymorth i staff i feddwl am sut i helpu pobl aros yn iach ag annibynnol
- cael meddygon teulu i gysylltu pobl gyda grwpiau lleol a gweithgareddau gall helpu nhw aros yn iach
- cefnogi pobl gydag anableddau i fod yn annibynnol ag yn rhan o'r gymuned
- darganfod os yw pobl angen unrhyw gwasanaethau arbenigol yn nes at adref.

# Anabledd dysgu

## Beth rydym wedi darganfod

Mae yna fwy o bobl gydag anabledd dysgu, ac maen nhw'n byw yn hirach.

Mae rhan fwyaf o bobl yn cael cymorth gan eu teuluoedd sydd yn cael llai o bres i helpu.

## Rydym angen:

- cynllunio o flaen llaw i sicrhau fod gan gofalwyr hŷn y cymorth maen nhw angen er mwyn cario ymlaen i ofalu
- cydweithio er mwyn cynllunio gwasanaethau iechyd gwell ar gyfer pobl hŷn efo anabledd dysgu
- rhoi cymorth i bobl gydag anabledd dysgu i gael gofal iechyd da drwy wybodaeth sydd ar gael, nyrsys cyswllt a gwasanaethau iechyd
- sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal chymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi pobl
- sicrhau bod gennym y staff cywir Easy Read mwyn helpu pobl i aros yn ddiogel ac yn annibynnol
- darganfod ffyrdd allu defnyddio technoleg fel larymau a switshis I helpu bobl i fod yn fwy annibynnol
- cael mwy o staff sydd yn siarad Cymraeg
- gweithio gyda mudiadau eraill i sicrhau bod gennym y math o dai mae pobl angen
- sicrhau bod yr holl siroedd yn gweithio yn yr un ffordd i hel gwybodaeth a cynllunio beth mae pobl angen.

## **Iechyd meddwl**

Beth rydym wedi darganfod

Mae gan rhan fwyaf o bobl yng Ngogledd Cymru iechyd meddwl gwell na gweddill Cymru.

Ond fydd mwy o bobl angen gwasanaethau iechyd meddwl.

Rydym angen:

- gwella ar chefnogi pobl yn fuan a helpu nhw i ddeall iechyd meddwl
- edrych os oes angen fwy o staff sydd yn siarad Cymraeg
- deall faint o bobl sydd angen gwasanaethau iechyd meddwl yn yr ysbyty.

## **Gofalwyr**

Mae'r darn yma am ofalwyr sydd ddim yn cael eu talu, pobl fel teulu a ffrindiau.

Beth rydym wedi darganfod

Mae gofalwyr yn gwneud gwaith andros o bwysig, ac yn arbed llawer o bres i ni.

Mae'n bwysig ofnadwy bod ganddynt y cefogaeth maen nhw

Beth rydym yn meddwl dylai ddigwydd

Rydym angen:

- cael gweithiwr newydd i ddarganfod beth mae gofalwyr angen
- darganfod pa wasanaethau sy'n rhoi y cefnogaeth orau i ofalwyr
- dweud wrth Llywodraeth Cymru beth rydym wedi darganfod er mwyn eu helpu i ysgrifennu eu cynllun ar gyfer gofalwyr.

# Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a cham-drin rhywiol

Beth rydym wedi darganfod

Mae trais yn erbyn merched a cham-drin rhywiol yn cynnwys **cam-drin domestig**, trais ac ymosodiad rhywiol.

**Cam-drin domestig** yw pan mae aelod o'ch teulu neu rywun rydych yn byw efo yn trin chi yn wael drwy:

- pigo arnoch chi neu dweud pethau cas
- brifo chi
- gorfodi chi i wneud pethau rydych chi ddim eisiau
- gorfodi chi i wneud pethau dydych chi ddim eisiau

Mae cam-drin domestig a rhywiol yn gallu digwydd i ddynion a merched.

Ond mae nifer o bobl yn parhau i aros yn ddistaw am y troseddau yma.

Rydym angen:

- cysylltu gwasanaethau sydd yn cadw bobl yn ddiogel
- cefnogi plant a phobl ifanc mewn teuluoedd lle mae cam-drin yn digwydd
- helpu **dioddefwyr** i fyw mewn rhywle diogel
- cael gwybod am bobl sydd angen cymorth arbennig. Er enghraifft, pobl o wahanol grwpiau **ethnig**.

Rydym angen ysgrifennu cynllun lleol i ddweud sut rydym am wneud hyn.

Os gwelwch yn dda, cysylltwch gyda ni os oes gennych unrhyw beth hoffech chi ddweud wrthym i helpu gyda'r cynllun.

Mae ein manylion ar y cefn.

# Pobl yn y carchar

## Beth rydym wedi darganfod

Mae'r gyfraith rŵan yn dweud fod rhaid l gynghorau gefnogi pobl yn y carchar pan maen nhw'n symud yn ôl i'r gymuned.

Mae rhaid i ni geisio atal nhw fynd yn ôl i'r carchar eto.

## Rydym angen:

- darganfod sut mae carchar Berwyn yn gweithio a sut i gefnogi pobl sydd methu mynd yno
- dysgu gan garchardai yn de Cymru
- gweithio gyda mudiadau eraill
- rhoi gwell cefnogaeth i menywod a phobl ifanc yn y carchar, a'i teuluoedd
- rhoi gwell gofal iechyd a chymdeithasol a thai i bobl pan maen nhw'n gadael y carchar.



# Pobl sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd

Beth rydym wedi darganfod

Mae'r **lluoedd** yn golygu'r fyddin, llynges neu'r llw awyr.

Mae pobl sydd wedi bod yn y lluoedd yn cael eu galw yn **gyn-filwyr**.

Roedd tua 51,000 o **cyn-filwyr** yng Ngogledd Cymru

Dylai pob gwasanaeth:

- weithio efo'i gilydd i atal **cyn-filwyr** fod yn unig a rhoi cymorth iddynt fyw yn annibynnol
- bod gyda staff sydd yn deall sut i weithio efo **cyn-filwyr**
- dweud wrth **cyn-filwyr** lle maen nhw yn medru cael cymorth a gofal o ansawdd da
- rhoi'r cymorth iawn i **gyn-filwyr**, yn enwedig ar gyfer eu hiechyd meddwl
- cefnogi **cyn-filwyr** i wirfoddoli i helpu iddynt gael swyddi
- darganfod pa gefnogaeth mae **cyn-filwyr** sydd yn ofalwyr angen.

# Pobl digartref

## Beth rydym wedi darganfod

Mae'r Ddeddf Tai yn helpu ni gefnogi pobl ddigartref yn well.

Ond efallai bydd hyn yn anoddach pan mae'r pres am y gwaith yn dod i ben.

## Rydym angen:

- edrych ar sut mae newidiadau i buddaliadau yn effeithio pobl digartref
- helpu pobl i aros yn ei cymunedau lleol os bosib
- gweithio efo cymdeithasau tai a mudiadau eraill i gefnogi pobl sydd mewn perygl o fod yn digartref
- edrych ar lle nad oes gennym y gwasanaethau mae pobl angen.

## **Pobl awtistig**

Beth rydym wedi darganfod

Weithiau mae gan oedolion a phlant awtistig anabledd dysgu neu angen cymorth gyda'i iechyd meddwl.

Rydym angen:

neud yn siwr bod grwpiau cymunedol a gwirfoddol yn dweud wrth bobl awtistig sut fedrith nhw eu cefnogi nhw

- wneud yn siwr bod y cyhoedd, yr heddlu, cyflogwyr a gwasanaethau cyhoeddus yn deall mwy am awtistiaeth a'r mathau gwahanol o gefnogaeth gall pobl awtistig fod angen.

## **Sut i gysylltu gyda ni**

Galwch Sarah Bartlett ar: 01824 712432

Neu e-bostiwch:

[sarah.bartlett@denbighshire.gov.uk](mailto:sarah.bartlett@denbighshire.gov.uk)

## **Credydau**

Mae'r fideo yma wedi ei dynulio a'i gynhyrchu drwy y wasanaeth 'EasyRead' gan 'Inspired Service Publishing Ltd'. Mawrth 2017.

Mae'n cwrdd â'r Safon 'EasyRead' Ewropeaidd.

Gyda diolch i grwpiau Hunan Eiriolaeth Gogledd Ddwyrain Cymru a Hunan Eiriolaeth Dinbych a Phrestatyn.